

Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymgynghoriad y [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) ar [Flaenoriaethau'r Chweched Senedd](#)

This response was submitted to the [Children, Young People and Education Committee](#) consultation on [Sixth Senedd Priorities](#)

CYPE SP 32

Ymateb gan: Sharon Lovell MBE, Prif Weithredwr a Ben Twomey, Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil, Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol

Response from: Sharon Lovell MBE, Chief Executive and Ben Twomey, Director of Policy and Research National Youth Advocacy Service NYAS Cymru

Beth yn eich barn chi yw'r prif flaenoriaethau neu'r materion y dylai'r Pwyllgor eu hystyried yn ystod y Chweched Senedd? Os oes modd, nodwch eich barn o ran sut y gallai'r Pwyllgor fynd i'r afael â hyn.

What do you consider to be the main priorities or issues that the Committee should consider during the Sixth Senedd? Where possible, please set out your view about how the Committee could address them.

Thema 1: Addysg oedran ysgol | Theme 1: School-age education

Croesewir Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, fodd bynnag, rydym yn galw ar Awdurdodau Lleol i gomisiynu gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc mewn lleoliadau addysg pan fydd angen cynrychiolaeth arnynt i sicrhau bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu gwrandao a'u cymryd o ddifrif. Gellid cynnwys y gwasanaeth hwn wrth gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth statudol yn rhanbarthol fel y darperir gan wasanaethau cymdeithasol.

Ni ddylid caniatáu gwaharddiadau ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yng Nghymru. Mae angen i ni geisio cyfartaledd o ran canlyniadau addysgol gyda phwyslais ar ddarparu cefnogaeth ychwanegol i unigolion sydd â phrofiad o fod mewn gofal sydd wedi cael eu heffeithio ymhellach gan y pandemig.

Dylai'r Pwyllgor hyrwyddo pwysigrwydd gwaith ieuenctid mewn ysgolion a'r fframwaith polisi addysg. Fel rhan o'r adferiad ar ôl Covid-19 dylid addasu ymagwedd addysgiadol anffurfiol gwaith ieuenctid ym mhob ysgol i ddarparu cefnogaeth, gwybodaeth, cyngor a mesurau diogelu ychwanegol.



Thema 2: Addysg bellach ac addysg uwch | Theme 2: Further and higher education

Dylid cynnig mentor i bob person ifanc sy'n gadael gofal i'w cefnogi gyda mynediad i addysg bellach.

Rydym yn argymhell adolygiad o lwfansau ariannol personol i alluogi pobl ifanc i gael mynediad i addysg a darparu cefnogaeth ar gyfer anghenion tai yn ystod y cyfnodau hyn.

Thema 3: Iechyd a lles, gan gynnwys gofal cymdeithasol (i'r graddau y maent yn ymwneud â phlant a phobl ifanc) | Theme 3: Health and well-being, including social care (as they relate to children and young people)

IECHYD MEDDWL A LLES - Mae iechyd meddwl yn cael ei godi'n gyson gan blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal fel mater o flaenoriaeth wrth drafod meysydd i'w gwella. Mae NYAS Cymru yn eirioli ar ran plant a phobl ifanc ledled Cymru sy'n ei chael hi'n anodd cyrchu neu ymgysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl. Gallai'r Pwyllgor chwarae rhan ganolog wrth gefnogi Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth iechyd meddwl sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn seiliedig ar hawliau.

Byddem yn falch iawn o gysylltu'r Pwyllgor â'n prosiect iechyd meddwl Newid, sy'n cefnogi pobl ifanc sy'n trawsnewid o CAMHS naill ai i wasanaethau iechyd meddwl oedolion neu'r gymuned. Rydym yn cynnal clinigau cefnogaeth galw heibio ar gyfer pobl ifanc, rhieni a gofalywyr i ddarparu cefnogaeth ac adnoddau ar gyfer pryderon iechyd meddwl lefel isel.

Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau iechyd meddwl a llesiant trwy greu cynnig gweithredol o eiriolaeth annibynnol ar gyfer pob plentyn sy'n ymgysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl. Argymhellwyd hyn yn adroddiad rhagorol y Pwyllgor 'Cadernid Meddwl' ei hun ac mae angen ei gweithredu arno. Mae cynnig gweithredol yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael gwybod sut i gyrchu eiriolwr ar yr adeg gynharaf bosib.

Dywedodd person ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal wrthym yn ddiweddar: "Pe bawn yn Brif Weinidog am ddiwrnod... byddwn yn sicrhau bod iechyd meddwl pawb yn derbyn gofal a bod pawb yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt waeth pa mor fawr neu fach y mae'r mater yn ymddangos." Mae hwn yn uchelgais cyraeddadwy i'r Pwyllgor ei gefnogi.



DIGARTREFEDD IEUENCTID - Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddod â digartrefedd ieuencid i ben erbyn 2027. Os yw hyn i ddod yn realiti, mae angen strategaeth digartrefedd ieuencid i nodi sut y bydd hyn yn digwydd, a gallai'r Pwyllgor gefnogi monitro'r ymdrechion hyn.

Thema 4: Plant a phobl ifanc | Theme 4: Children and young people

PLANT COLL - Mae angen gwneud mwy yng Nghymru i wella cysondeb ac effeithiolrwydd ein hymateb i blant sy'n cael eu hadrodd ar goll. Mae NYAS Cymru wedi bod yn arwain grŵp llywio 'Methu'r Pwynt' Cymru-gyfan yn edrych ar y materion hyn a byddem yn hapus i gyflwyno ein canfyddiadau i'r Pwyllgor. Rydym yn galw am wneud cyfweiliadau dychwelyd annibynnol yn ofyniad statudol pryd bynnag yr adroddir bod plant ar goll, ac i gryfhau'r canllawiau cyfredol. Mae Cyfweiliadau Dychwelyd yn pennu pam fod plentyn wedi rhedeg i ffwrdd, yn nodi unrhyw niwed a wnaed i'r plentyn neu berson ifanc tra roedden nhw ar goll, ac yn eu helpu i gadw'n ddiogel yn y dyfodol. Mae'r sefyllfa bresennol ledled Cymru yn anghyson ac yn destun pryder mawr.

HAWLIAU PLANT - Mae'r Pwyllgor wedi bod yn hyrwyddwr dros hawliau plant ers amser maith a dylai ystyried sut y gallai hyrwyddo ymgorfforiad llawn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn uniongyrchol i gyfraith Cymru. Rhan allweddol o'r gwaith hwn y gall y Pwyllgor gynorthwyo ag ef yw gwneud plant yn ymwybodol o'u hawliau a sicrhau bod unrhyw gynlluniau wrth symud ymlaen yn cynnwys plant a phobl ifanc yn uniongyrchol.

ADFER AR ÔL COVID - Y bobl sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan Covid-19 a'i effeithiau ehangach yw'r rhai sydd fwyaf difreintiedig. Dylid darparu eiriolaeth i rieni y mae eu plant ar gyrion gofal ledled Cymru gyfan i gefnogi gyda'r adferiad. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau i ferched beichiog ifanc sydd yn y system ofal.

CYFRANOGIAD - Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae NYAS Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael cyfle i lunio gwaith a mewnbwn y Pwyllgor yn uniongyrchol. Byddem yn croesawu'r cyfle i barhau i gydweithio fel hyn, ac edrychwn ymlaen at gefnogi cyfranogiad pobl ifanc ar bob cyfle.

DULL CENEDLAETHOL AR GYFER EIRIOLAETH STATUDOL (NASA) - Dylai'r Pwyllgor gynnal adolygiad i archwilio effeithiolrwydd y cynnig gweithredol, fframwaith comisiynu, offeryn ystod a lefel, atebolrwydd a lefel annibyniaeth yn y dull cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth statudol.

DYRANNU CYLLID - Dylid cynnal adolygiad o ddyraniadau cyllid i'r trydydd sector gwirfoddol gyda'r bwriad o sicrhau cytundebau tymor hwy mewn grantiau a mynediad cyfartal i gronfeydd ar draws gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol.



